

Bil Protocol Gogledd Iwerddon Papur briffio

Medi 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: **Sara.Moran2@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#)** | **[Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Protocol Gogledd Iwerddon

Papur briffio

Medi 2022

Awdur:
Sara Moran



Byddai Bil Protocol Gogledd Iwerddon yn datgymhwyso rhannau o Brotocol Gogledd Iwerddon a'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig, yn grymuso Gweinidogion y DU i ddatgymhwyso mwy o rannau yn y dyfodol ac i roi trefniadau newydd ar waith heb gydsyniad neu fewnbwn yr UE.

Byddai'r Bil hefyd yn gwneud y canlynol:

- Rhoi pwerau eang i Weinidogion y DU ddeddfu, a allai gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, gan gynnwys atal dros dro neu ddiidymu deddfwriaeth y Senedd, y gellid ei harfer gan Weinidogion Cymru;
 - Newid y rheolau ar gyfer masnachu mewn nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, a rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheolau gwahanol yn y dyfodol;
 - Newid rheolau eraill y cytunwyd arnynt â'r UE ar gyfer Gogledd Iwerddon ynghylch rheoli cymorthdaliadau, TAW a thollau, a rhoi'r pwerau i Weinidogion y DU wneud trefniadau eraill;
 - Rhoi pwerau i Weinidogion y DU weithredu diwygiadau i'r Protocol, neu unrhyw gytundeb newydd a allai ei ddisodli;
 - Dileu rôl ac awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.
-

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Diben.....	2
3. Newidiadau i effaith y Protocol	3
4. Newidiadau yn y dyfodol i effaith y Protocol gan Weinidogion	6
5. Ymddygiad Gweinidogol.....	8
6. Pwerau i weithredu Protocol newydd	9
7. Gweinidogion Cymru a'r Senedd	9
8. Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd	13
9. Masnach	16
10. Rheoli cymorthdaliadau	23

11. TAW a thollau cartref.....	24
12. Rheolau gweithdrefnol ar gyfer gwneud rheoliadau	25
13. Cymalau ymarferol ar gychwyn, rychwant, ac ati	26

1. Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o **Fil Protocol Gogledd Iwerddon** yn ôl thema. Mewn atodiad i'r crynodeb hwn y mae rhestr gronolegol o ddarpariaethau ar gipolwg.

Nodweddion pwysig y Bil

Mae'r Bil yn cynnwys nodweddion pwysig sydd wedi'u symleiddio at ddiben y papur briffio hwn. Mae'r rhain yn allweddol i ddeall y Bil ac wedi'u hesbonio yn yr adran hon.

Ni fydd y Bil yn newid y Protocol

Mae'r Protocol yn rhan o'r Cytundeb Ymadael, cytuniad ac offeryn cyfraith ryngwladol.

Ni chaiff Senedd y Deyrnas Unedig ddeddfu i newid cyfraith ryngwladol. Yn hytrach, mae'r Bil yn ceisio newid effeithiau'r Protocol, y Cytundeb Ymadael a deddfwriaeth gysylltiedig arall mewn cyfraith ddomestig, ac i alluogi Gweinidogion i wneud mwy o newidiadau i'w heffeithiau yn y dyfodol.

Ni fydd y Bil yn rhyddhau'r DU o'i rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y nodwyd gan **y Cwnsler Cyffredinol**.

Mae'r Bil yn creu 'darpariaeth eithriedig'

Mae'r Bil yn troi rhannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael yn 'ddarpariaeth eithriedig' mewn cyfraith ddomestig, gan eu diffodd mewn gwirionedd. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau eang i Weinidogion wneud mwy o rannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael yn 'ddarpariaeth eithriedig' yn rhannol neu'n llawn, i raddau gwahanol ac i wrthdroi eu penderfyniad.

Mae hyn yn golygu, yn y dyfodol, y câi Gweinidogion weithredu/diffodd mwy o rannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael, ac y byddent yn cael cynyddu/lleihau eu heffeithiau.

Er hwylustod, mae'r papur briffio hwn yn defnyddio'r termau 'datgymhwyso', 'diffodd' a thermau tebyg eraill wrth gyfeirio at rannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael a fyddai'n dod yn ddarpariaeth eithriedig o dan y Bil neu yn y dyfodol drwy bwerau Gweinidogol.

Pwerau Gweinidogol

Byddai'r Bil yn rhoi pwerau ysgubol i Weinidogion y DU, gan gynnwys i ddiwygio Deddfau Seneddol a diddymu neu atal deddfwriaeth dros dro, gan gynnwys deddfwriaeth y Senedd. Câl Gweinidogion y DU roi bron holl bwerau gwneud rheoliadau'r Bil i Weinidogion Cymru, er mwyn eu defnyddio naill ai yn eu lle, neu ar y cyd neu'n gyfredol â Gweinidogion y DU.

Mae **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** y Bil yn datgan bod rhai o'r pwerau dirprwyedig y darperir ar eu cyfer yn y Bil hwn **yn eang o reidrwydd**. Ymhellach, mae'n nodi'r canlynol am Lywodraeth y DU:

... has not taken the decision to seek powers lightly but considers them appropriate given the grave and imminent situation in Northern Ireland and the need to ensure the Government can act quickly and flexibly as appropriate to restore the balance of the institutions under the Belfast (Good Friday) Agreement.

Yn ddiweddarach, mae'n nodi bod y pwerau a roddir gan y Bil wedi'u cyfyngu'n addas i rannau penodol o'r Protocol y mae'n ceisio eu cyflawni'n wahanol, lle y mae materion wedi codi.

2. Diben

Mae'r Bil yn datgan ei ddiben yw fel a ganlyn:

Make provision about the effect in domestic (UK) law of the Protocol, about other domestic law in subject areas dealt with by the Protocol, and for connected purposes.

Mae **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** y Bil yn ychwanegu mai ei ddiben yw grymuso Gweinidogion i wneud newidiadau i weithrediad y Protocol sy'n diogelu Cytundeb Belfast (Gwener y Grogolith) a diogelu heddwch a sefydlogrwydd yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Cymal 1 yn rhoi mwy o fanylion am ddiben y Bil, sef:

- datgymhwyso effaith rhannau o'r Protocol yn y DU;
- rhoi pwerau i Weinidogion ddatgymhwyso effaith rhannau eraill o'r Protocol;
- sicrhau nad yw datgymhwyso effaith y Protocol yn effeithio ar ddeddfwriaeth arall. Mae'n nodi dwy enghraifft - *Deddf Uno ag Iwerddon 1800 a Deddf Uno (Iwerddon) 1800*;
- rhoi pwerau i Weinidogion wneud cyfraith newydd mewn cysylltiad â'r Protocol.

Mae hyn yn cynnwys rhoi trefniadau newydd ar waith lle y mae'r Protocol wedi'i ddatgymhwyso.

3. Newidiadau i effaith y Protocol

Mae'r Bil yn newid rhannau o effaith y Protocol drwy gymalau 2, 3, a 14, a nodir yn yr adran hon.

Cefndir

Ar hyn o bryd, **y Cytundeb Ymadael**, sy'n gosod telerau gwahanu'r DU â'r UE, yn cael effaith mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"). Diwygiwyd Deddf 2018 gan Ddeddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020.

Fel rhan o Brexit, daeth y DU i **gytundebau gwahanu eraill** â gwledydd Ewropeaidd nad ydynt yn yr UE, sef Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau gwahanu'. Yn benodol, **cytundeb gwahanu EFTA yr AEE** a **chytundeb hawliau dinasyddion** y Swistir ydynt.

Mae 'cyfraith cytundeb gwahanu' yn cyfeirio at y cytundebau hyn, y Cytundeb Ymadael a chyfraith ddomestig sy'n cyd-fynd â hi.

Mae cymalau'r Bil yn cyfyngu ar weithrediad y Protocol, y Cytundeb Ymadael a chyfraith cytundeb gwahanu drwy ddatgymhwyso a diwygio rhannau o Ddeddf 2018, yn enwedig adrannau 7A a 7C.

Mae **adran 7A** yn gweithredu fel cyfrwng fel bod yr hawliau, y pwerau ac ati a ddarperir gan y Cytundeb Ymadael ar gael mewn cyfraith ddomestig. Drwy adran 7A, mae ganddynt oruchafiaeth dros gyfraith ddomestig sy'n gwrthdaro ac mae ganddynt effaith uniongyrchol, sy'n golygu eu bod yn rhoi hawliau i ddinasyddion sy'n cael eu cydnabod a'u gorfodi gan lysoedd domestig.

Mae **adran 7C** yn ei gwneud yn ofynnol darllen cyfraith cytundeb gwahanu yn unol â'r Cytundeb Ymadael ac mae'n nodi sut i ddehongli cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu.

Mae Cymal 2 yn datgymhwyso rhannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig drwy newid sut y mae Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn gweithio. Mae Deddf 2018 yn rhoi effaith i'r ddau mewn cyfraith ddomestig.

Mae'n gwneud hyn drwy ddatgymhwyso a diwygio Deddf yr UE (Ymadael) 2018.

Mae Cymal 2 yn gwneud tri newid i **adran 7A o Ddeddf 2018**.

Yn gyntaf, mae'n diffodd hawliau, pwerau, atebolrwyddau, rhwymedigaethau neu gyfyngiadau, rhwymedïau neu weithdrefnau ("hawliau, pwerau ac ati") a ddarperir gan y Protocol a'r Cytundeb Ymadael neu o danynt.

Yn ail, nid yw'n caniatáu i'r hawliau hyn a'r pwerau hyn, ac ati gael eu:

- cydnabod na bod ar gael mewn cyfraith ddomestig; na'u
- gorfodi, eu caniatáu na'u ddilyn;
- mae'n gwahardd deddfwriaeth gysylltiedig arall rhag cael ei darllen neu'n cael effaith yn unol ag adran 7A(2), ni waeth pryd y cafodd ei phasio.

Yn drydydd, mae'n diwygio adran 7A er mwyn:

- ei gwneud yn ddarostyngedig i Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon, gan roi goruchafiaeth i Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon dros adran 7A mewn gwirionedd;
- ychwanegu rheoliadau yn y dyfodol a wnaed o dan Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon i restr o eitemau i'w hystyried wrth ddehongli'r Cytundeb Ymadael. Mae hyn yn golygu y gall rheoliadau o dan Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon gymryd blaenoriaeth dros adran 7A i'r graddau y maent yn anghydnaws â hi.

Mae Cymal 3 yn cyfyngu ar effaith cyfraith cytundeb gwahanu fel bod yn rhaid ei ddarllen yn unol â'r Bil ac nid y Cytundeb Ymadael, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd.

Mae hyn yn cynnwys cyfyngu ar effaith y Cytundeb Ymadael, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE a chytundeb hawliau dinasyddion y Swistir.

Mae Cymal 3 yn gwneud hyn drwy wneud newidiadau i **adran 7C o Ddeddf 2018**.

Mae adran 7C yn ei gwneud yn ofynnol darllen cyfraith cytundeb gwahanu yn unol â'r Cytundeb Ymadael ac mae'n nodi sut i ddehongli cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu. Mae Cymal 3:

- yn datgymhwyso adran 7C o Ddeddf 2018 fel na ellir dehongli cyfraith cytundebau gwahanu mewn ffordd sy'n anghydnaws â darpariaeth a wneir gan Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon neu o dani, ac unrhyw ymddygiad o dan adran 18(1);
- yn diwygio adran 7C o Ddeddf 2018 fel bod Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei hychwanegu at restr o eitemau i'w hystyried yng ngweithrediad cyffredinol cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu.

Mae Cymal 14 yn datgymhwyso rhannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â rhannau sydd wedi'u datgymhwyso eisoes. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion ddeddfu ar gyfer trefniadau newydd.

Ar hyn o bryd, awdurdodau'r DU sy'n gyfrifol am weithredu a chymhwyso cyfraith yr UE, y Protocol a'r Cytundeb Ymadael yn unol â chyfraith yr UE a chyfraith achos Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Pan fo rhannau o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael wedi'u datgymhwyso eisoes, gan adael rhannau cysylltiedig eraill mewn grym, mae'r rhannau cysylltiedig hefyd yn cael eu datgymhwyso gan gymal 14. Mae hefyd yn grymuso Gweinidogion i ddeddfu i wneud cyfraith newydd y maent o'r farn ei bod yn briodol.

Mae Cymal 14(1) yn datgymhwyso unrhyw ddarpariaeth o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael i'r graddau y maent yn ymwneud â darpariaeth arall wedi'i datgymhwyso o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael. Mae nodiadau esboniadol y Bil yn esbonio bod hyn er mwyn datgymhwyso darpariaethau ategol eraill. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau a restrir isod yng nghymal 14(2) yn estyn y datgymhwysiad y tu hwnt i ddarpariaeth gysylltiedig hyd yn oed i gysyniadau o gyfraith yr UE a geir yng nghyfraith achos Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Cymal 14(2) yn rhestru enghreifftiau o'r rhain o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael, fel a ganlyn:

- i. Erthygl 12 o'r Protocol ar weithredu, cymhwyso, goruchwylio a gorfodi (ar wahân i baragraffau 2, 3 a 4);
- ii. Erthygl 13 o'r Protocol ar ddarpariaethau cyffredin, gan gynnwys dehongli cyfraith yr UE a'i chysyniadau yn unol â chyfraith achos Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd;
- iii. Erthygl 4 o'r Cytundeb Ymadael ar ddulliau ac egwyddorion sy'n ymwneud ag effaith, gweithrediad a chymhwysiad y cytundeb;

- iv. Erthygl 6 o'r Cytundeb Ymadael ar gyfeiriadau at gyfraith yr UE;
- v. Erthygl 170-181 o'r Cytundeb Ymadael ar ddatrys anghydfod gan y panel cymrodeddu;
- vi. erthyglau o'r Protocol i'r graddau y maent yn ymwneud ag Atodiadau i'r Protocol sydd wedi'u datgymhwyso.

Mae Cymal 14(3) yn nodi bod yr adran hon yn gymwys i'r canlynol:

- a. cyfrifoldeb awdurdodau'r DU am weithredu a chymhwyso cyfraith yr UE;
- b. gofyniad i'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael gael eu dehongli a'u cymhwyso yn unol â dulliau ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE ac yn cydymffurfio â chyfraith achosion berthnasol Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Cymal 14(4) yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud unrhyw ddarpariaeth y maent o'r farn ei bod yn briodol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â'r adran hon.

4. Newidiadau yn y dyfodol i effaith y Protocol gan Weinidogion

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion newid effeithiau'r Protocol yn y dyfodol drwy gymalau 15 ac 16, a nodir yn yr adran hon.

Mae Cymal 15 yn nodi y caiff Gweinidogion newid pa rannau o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael sy'n cael eu diffodd/ gweithredu, ac i ba raddau, os bodlonir un o ddau amod. Mae eithriadau pwysig yn gymwys fel na chaniateir gwneud newidiadau i erthyglau'r Protocol a ddyluniwyd i ddiogelu rhannau o Gytundeb Gwener y Groglith (Belfast) 1998 ar hawliau dinasyddion, cydweithrediad rhwng y Gogledd a'r De, a'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon. Fodd bynnag, gallai'r amddiffyniadau hyn gael eu diystyru yn y dyfodol gan Weinidogion.

Mae Cymal 15(2)(a)-(d) yn rhoi pwerau i Weinidogion ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael (ac eithrio erthyglau a restrir yng nghymal 15(3)), yn gyfan gwbl neu'n rhannol i unrhyw raddau, neu i beidio â chael ei datgymhwyso (h.y. fel y caiff y ddarpariaeth ei hailgymhwyso).

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid bodloni un o ddau amod. Mae'n rhaid bod y Gweinidog naill ai o'r farn ei bod yn angenrheidiol **neu** mae'n rhaid ei bod mewn cysylltiad ag un neu ragor o "ddibenion a ganiateir".

Mae Cymal 15(1) yn diffinio naw "diben a ganiateir", fel a ganlyn:

1. diogelu sefydlogrwydd cymdeithasol neu economaidd yng Ngogledd Iwerddon;
2. sicrhau llif masnach effeithiol rhwng (i) Gogledd Iwerddon a rhan arall o'r DU, neu (ii) ran o'r DU ac unrhyw le y tu allan i'r DU;
3. diogelu cyfanrwydd tiriogaethol neu gyfansoddiadol y DU;
4. diogelu gweithrediad Cytundeb Belfast (Gwener y Groglith);
5. diogelu lles neu iechyd anifeiliaid, planhigion neu bobl;
6. diogelu bioddiogelwch neu'r amgylchedd;
7. diogelu uniondeb marchnad sengl yr UE;
8. lleihau, dileu neu osgoi gwahaniaeth rhwng treth neu tollau tramor yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr;
9. sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw rwymedigaeth neu gytundeb rhyngwladol, neu roi effaith iddi/iddo, heblaw am (i) y Protocol neu unrhyw ran arall o'r Cytundeb Ymadael, neu (ii) unrhyw rwymedigaeth o dano/dani.

Mae Cymal 15(3) yn nodi na chaiff Gweinidogion ddefnyddio'r pwerau a roddir yng Nghymal 15(2) i roi'r gorau i effaith erthyglau Protocol penodol i unrhyw raddau. Mae hyn yn diogelu erthyglau'r Protocol ar y canlynol:

- a. hawliau unigolion (Erthygl 2);
- b. ardal deithio gyffredin (Erthygl 3);
- c. meysydd cydweithrediad eraill rhwng y Gogledd a'r De (Erthygl 11).

Fodd bynnag, mae Cymal 15(4) yn darparu y caiff Gweinidogion, drwy reoliadau, ddarparu ar gyfer eithriadau o unrhyw waharddiad. Mae hyn yn golygu y câi Gweinidogion ddiystyru'r diogelwch hwn a datgymhwyso darpariaethau yn y Protocol sy'n ymwneud â hawliau unigolion, ardal deithio gyffredin a meysydd cydweithrediad eraill rhwng y Gogledd a'r De, pe baent yn dod o fewn unrhyw eithriad.

Mae Cymal 16 yn grymuso Gweinidogion i wneud cyfreithiau newydd pan fo hynny'n briodol mewn cysylltiad â newid cymhwysiad y Protocol a'r Cytundeb Ymadael, yn unol â Chymal 15.

Mae Cymal 16(1) yn rhoi'r pwerau i Weinidogion wneud cyfraith newydd y maent yn ystyried eu bod yn briodol mewn cysylltiad â datgymhwysu'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael (fel y'u caniateir o dan Cymal 15(2), a nodwyd uchod).

Mae Cymal 16(2) yn dweud na fydd darpariaeth o'r fath yn cael ei chyfyngu gan bwerau eraill a ddarperir gan y Ddeddf hon.

Mae Cymal 16(3) yn diffinio'r term darpariaeth eithriedig ychwanegol, a ddefnyddir i ddisgrifio mwy o rannau o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael y mae Gweinidogion wedi'u datgymhwysu drwy ddefnyddio cymal 15, fel y nodwyd uchod.

5. Ymddygiad Gweinidogol

Mae Cymal 18 yn awdurdodi Gweinidogion i gymryd rhan mewn ymddygiad sy'n ymwneud â'r Protocol pan fo hynny'n briodol, hyd yn oed os nad yw wedi'i awdurdodi gan Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon. Rhestrir llunio canllawiau fel enghraifft yn nodiadau'r Bil ond nid yw ymddygiad wedi'i ddiffinio (na'i gyfyngu) gan Ddeddf Protocol Gogledd Iwerddon.

Mae Cymal 18(1) yn awdurdodi Gweinidogion i gymryd rhan mewn ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw fater yr ymdrinnir ag ef yn y Protocol os ydynt o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cysylltiad ag un neu ragor o ddibenion y Ddeddf hon, hyd yn oed pan na ddarperir ar ei gyfer mewn mannau eraill yn Neddf Protocol Gogledd Iwerddon. Nid yw ymddygiad wedi'i ddiffinio gan y Bil ond mae ei **nodiodau esboniadol** yn rhoi gweithgaredd is-ddeddfwriaethol, megis llunio canllawiau, fel enghraifft.

Mae Cymal 18(2) yn darparu nad oes dim yn y Ddeddf hon yn effeithio ar bwerau Gweinidogol eraill nas ceir yn y Ddeddf hon.

6. Pwerau i weithredu Protocol newydd

Mae Cymal 19 yn rhoi pwerau i Weinidogion weithredu unrhyw gytundeb rhwng y DU a'r UE sy'n addasu, yn atodi neu'n disodli'r Protocol, ac i ddeddfu ar faterion cysylltiedig.

Mae Cymal 19(1) yn rhoi pwerau i Weinidogion at ddiben:

- a. gweithredu unrhyw gytundeb perthnasol; neu
- b. ymdrin â materion sy'n deillio o unrhyw gytundeb perthnasol, neu'n ymwneud â hwy.

Mae Cymal 19(2) yn diffinio 'cytundeb perthnasol' fel cytundeb rhwng y DU a'r UE sy'n addasu, yn atodi neu'n disodli'r Protocol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

7. Gweinidogion Cymru a'r Senedd

Mae darpariaethau terfynol y Bil yn cynnwys darpariaethau pwysig ar gyfer y llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig. Maent yn grymuso Gweinidogion y DU i roi pwerau rheoleiddio i Weinidogion Cymru, ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU benderfynu ar weithdrefnau craffu ar gyfer rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Maent hefyd yn darparu y gallai deddfwriaeth ddomestig gael ei hatal dros dro neu ei diddymu gan Weinidogion y DU, a fyddai'n cynnwys deddfwriaeth Gymreig. Byddai Cymalau 21-25 yn dod i rym ar y diwrnod y mae Deddf Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei phasio.

Mae Cymal 21 yn awdurdodi Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru i wario arian at ddiben unrhyw beth, neu mewn cysylltiad ag ef, sydd ei angen wrth lunio rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon.

Caiff Gweinidogion Cymru fynd i wariant er mwyn paratoi i roi trefniadau newydd ar waith.

Mae Cymal 22 yn un o'r cymalau mwyaf arwyddocaol yn y Bil. Mae'n pennu paramedrau ar gyfer rheoliadau, gan gynnwys y câi Gweinidogion y DU roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud pwerau i gyflawni'r Ddeddf, ac y câi Gweinidogion y DU benderfynu pa weithdrefn graffu a ddefnyddir yn y Senedd. Mae Cymal 22 hefyd yn awdurdodi rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon i atal dros dro, diddymu neu newid cyfraith ddomestig, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a wneir gan y Senedd sy'n rhoi effaith i'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael.

Mae **Cymdeithas Hansard** yn dweud bod cymal 22 hefyd yn golygu'r canlynol:

... powers in the NIP Bill are specifically permitted to make provision that is incompatible with the Northern Ireland Protocol or any other part of the Withdrawal Agreement.

Yr hyn y caniateir i reoliadau ei wneud

Mae Cymal 22(1) yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon wneud unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei gwneud gan Ddeddf Seneddol, gan gynnwys addasu'r Ddeddf hon.

Mae Cymal 22(2) yn darparu rhestr yn nodi'r hyn y câi rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon ei wneud, fel a ganlyn:

- a. gwneud darpariaeth ar yr amod ei bod yn gydnaws â'r Protocol neu unrhyw ran arall o'r Cytundeb Ymadael;
- b. atal dros dro, diddymu neu wneud darpariaeth amgen i gyfraith ddomestig sy'n rhoi effaith i'r Protocol **neu unrhyw ran arall** o'r Cytundeb Ymadael;
- c. gwneud darpariaeth i unrhyw un o gyfreithiau'r UE ffurfio rhan o gyfraith ddomestig, gan gynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i rannau penodol o Ddeddf 2018;
- d. gwneud darpariaeth yn datgan neu'n addasu'r effaith y mae unrhyw un o gyfreithiau'r UE yn ei chael yn rhinwedd adran 7A o Ddeddf 2018; neu
- e. wneud (i) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer meysydd gwahanol; (ii) darpariaeth gysylltiedig, atodol neu ganlyniadol; (iii) darpariaeth drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

Ni chaiff rheoliadau greu na hwyluso trefniadau ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon

Mae Cymal 22(3) yn gwahardd rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon rhag greu neu hwyluso trefniadau ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, nad oedd yn bodoli cyn diwrnod ymadael y DU â'r UE (ar 31 Rhagfyr 2020). Mae hyn yn gymwys i'r canlynol:

- a. seilwaith ffisegol, gan gynnwys swyddi ar y ffin; neu
- b. wiriadau a rheolaethau.

Rhagor o bwerau gwneud rheoliadau mewn cysylltiad â'r Protocol

Mae Cymal 22(4) yn darparu bod pwerau gwneud rheoliadau a roddir i Weinidogion er mwyn gwneud darpariaeth briodol mewn cysylltiad â'r Protocol yn arferadwy mewn cysylltiad â pha adran:

- a. sy'n ymwneud â hwy (yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 15(2)(b) neu (c));
- b. sy'n peidio ag ymwneud â hwy (yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 15(2)(d));

Ni chaniateir ystyried rheoliadau'n offerynnau hybrid, ac felly byddai'n osgoi gweithdrefn seneddol arbennig yn y DU sy'n caniatáu i'r rhai y mae rheoliadau'n cael effaith negyddol arnynt gyflwyno eu dadleuon yn eu herbyn

Mae Cymal 22(5) yn darparu na ddylai offerynnau, nac offerynnau drafft, sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon gael eu trin fel offerynnau hybrid, lle y byddent fel arfer yn cael eu trin felly o dan reolau sefydlog Senedd y DU.

Yn ymarferol, mae hyn yn osgoi'r weithdrefn a ganlyn:

Pwerau i Weinidogion Cymru a threfniadau craffu

Dyfernir bod rhai offerynnau statudol (OS) y mae angen eu cymeradwyo gan y ddau Dŷ (offerynnau cadarnhaol) yn offerynnau hybrid oherwydd eu bod yn effeithio ar rai aelodau o grŵp (boed yn unigolion neu'n gyrrff) yn fwy nag eraill yn yr un grŵp. Mae offerynnau hybrid yn ddarostyngedig i **weithdrefn arbennig sy'n rhoi cyfle i'r rhai y mae effaith negyddol arnynt gyflwyno eu dadleuon yn erbyn yr OS** i Bwyllgor Offerynnau Hybrid Tŷ'r Arglwyddi ac yna, o bosibl, i Bwyllgor Dethol sy'n gyfrifol am adrodd ar ei rinweddau. Mae'r weithdrefn offeryn hybrid yn unigryw i Dŷ'r Arglwyddi ac mae'n rhaid cwblhau'r broses cyn y caniateir cymeradwyo'r OS gan y ddau Dŷ.

Mae Cymal 22(6) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion y DU er mwyn:

- a. rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion datganoledig, naill ai (i) yn lle Gweinidog y DU, neu (ii) yn gydredol neu ar y cyd â Gweinidogion y DU neu awdurdodau datganoledig eraill;
- b. penderfynu craffu ar reoliadau a wneir gan awdurdodau datganoledig.

Mae'r **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** yn darparu dau gyfiawnhad ar gyfer hyn. Yn gyntaf:

The division of responsibilities in implementing the new arrangements replacing excluded elements of the Northern Ireland Protocol will depend on policy decisions yet to be taken, including as a result of consultations with stakeholders.

Ac yn ail:

Where a matter would normally fall within the legislative competence of the devolved administrations and the passage of devolved primary legislation would not be appropriate, or timely it may be appropriate to create a new devolved delegated power by exercise of this power.

Dadansoddiad Cymdeithas Hansard o Gymal 22(6)

Mae **dadansoddiad Cymdeithas Hansard** (gweler tudalennau 12-14) yn tynnu sylw at nifer o faterion gyda'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Bil o ran pwerau datganoledig.

Mae'r dadansoddiad yn esbonio bod peidio â rhoi pwerau datganoledig ar wyneb y Bil yn anarferol, yn ogystal â hepgor eu trefniadau craffu cysylltiedig. Mae'n esbonio fel a ganlyn:

The approach that has been taken in the NIP Bill is to confer on UK Ministers the power to make regulations that can further delegate legislative powers to devolved administrations.

This is in effect 'legislative sub-delegation' and the power that would be exercised by the devolved administration would be a 'sub-delegated power' to make 'tertiary legislation'.

Yn niffyg trefniadau craffu cysylltiedig, mae Cymdeithas Hansard yn dweud bod y cysylltiad pwysig rhwng y rhai sydd wedi'u grymuso i wneud cyfraith a'u hatebolrwydd i'r Senedd wedi'i dorri. Ar ben hynny, gallai deddfwriaeth a wneir gan Weinidogion datganoledig osgoi gwaith craffu'n gyfan gwbl, hyd yn oed os yw'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Dywed Cymdeithas Hansard nad yw Llywodraeth y DU wedi esbonio'r canlynol:

why 'tertiary legislation' made by virtue of clause 22(6) is not subject to the same level of scrutiny as is applicable to regulations made under the Bill;

why it is a UK Minister that decides whether and to what extent legislative power is conferred, and not Parliament, on the face of the Bill.

Mae'n argymhell y gall fod angen i seneddwyr ystyried:

- dileu cymal 22(6);
- rhoi pwerau i Weinidogion datganoledig ar wyneb y Bil;
- pennu ar wyneb y Bil lefel y gwaith craffu sy'n gymwys i arfer pwerau o'r fath.

Mae Cymal 22(7) yn darparu nad yw Cymal 22(2)(e) yn gymwys i reoliadau o dan gymal 26(3) (ond gweler Cymalau 26(4) a (5)). Mae hyn yn sicrhau mai Gweinidogion y DU yn unig a gaiff ddod â darpariaethau i rym ar ddyddiad yn y dyfodol, ac yn atal y pŵer hwn rhag cael ei ddirprwyo i Weinidogion datganoledig. Mae Cymal 26 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion ddod â darpariaethau eraill o'r Ddeddf i rym, ac yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion wneud darpariaethau cysylltiedig, trosiannol ac ati mewn cysylltiad â dyddiad dod i rym unrhyw ddarpariaethau.

8. Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd

Mae Cymalau 13 ac 20 o'r Bil yn gwneud newidiadau i rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, a nodir yn yr adran hon. Gyda'i gilydd, maent yn lleihau ei rôl yn sylweddol.

Cefndir

Mae'r Protocol yn darparu rôl i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn ffyrdd sy'n galluogi i awdurdodaeth y llys gael ei chadw cyhyd ag y bydd y Protocol yn parhau i fod mewn grym, h.y. o bosibl am gyfnod amhenodol. Fel yr amlinellir gan **yr Athro Catherine Barnard**, mae rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â'r Protocol yn driphlyg:

1. drwy Erthygl 12(4) o'r Protocol ar gymhwyso **rhwymedïau'r UE yng Ngogledd Iwerddon**, gan gynnwys y caiff llysoedd Gogledd Iwerddon wneud cyfeiriadau i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ac y caiff busnesau Gogledd Iwerddon herio darpariaethau cyfraith yr UE;
2. drwy weithdrefn **datrys anghydfod** y Cytundeb Ymadael, lle y mae'n rhaid cyfeirio cwestiynau ynghylch dehongli cyfraith yr UE i'r llys;
3. drwy Erthygl 131 o'r Cytundeb Ymadael, lle y caiff yr UE ddwyn **achos tor-rheol** yn erbyn y DU am dorri rheolau a ddigwyddodd yn ystod cyfnod pontio Brexit hyd at 31 Rhagfyr 2024.

Mae Cymal 13 yn dileu awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, pwerau cynrychiolwyr yr UE a rhai o bwerau strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Ymadael. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion ddeddfu ar gyfer trefniadau newydd, gan gynnwys y rhai y cytunwyd arnynt â'r UE ar gyfer goruchwyllo a rhannu gwybodaeth.

Mae Cymal 13(1) yn datgymhwyso unrhyw ddarpariaeth o'r Protocol neu unrhyw ran arall o'r Cytundeb Ymadael sy'n rhoi awdurdodaeth i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â'r canlynol:

- y Protocol; a
- darpariaethau cysylltiedig y Cytundeb Ymadael.

Mae Cymal 13(2) yn datgymhwyso paragraffau 2 a 3 o Erthygl 12 o'r Protocol.

Mae paragraff 2 yn llywodraethu presenoldeb a phwerau cynrychiolwyr yr UE, gan gynnwys eu hawl i fod yn bresennol yn ystod gweithgareddau lle y mae awdurdodau'r DU yn cymhwyso cyfraith yr UE, a'u hawl i gael gwybodaeth o'r DU.

Mae paragraff 3 yn darparu pwerau i Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a'r Pwyllgor Arbenigol ar y Protocol i bennu trefniadau gwaith ymarferol cynrychiolwyr yr UE wrth arfer eu hawliau.

Mae Cymal 13(3) yn nodi bod darpariaethau eraill yn y maes hwn yn cael eu datgymhwyso gan Cymal 14.

Mae Cymal 13(4) yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud unrhyw ddarpariaeth y maent o'r farn ei bod yn briodol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r Protocol sy'n ymwneud â'r adran hon.

Mae Cymal 13(5) yn dweud y gallai darpariaeth o'r fath gynnwys trefniadau gyda'r UE sy'n ymwneud â gweithrediad y Protocol, gan gynnwys goruchwyllo ei weithrediad neu rannu gwybodaeth dan y trefniadau hynny.

Mae Cymal 20 yn gwneud mwy o newidiadau i rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd fel bod llysoedd domestig yn cael eu hatal rhag dilyn egwyddorion neu benderfyniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, a rhag cyfeirio achosion i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Mae Cymal 20 hefyd yn rhoi dau bŵer newydd i Weinidogion - yn gyntaf, i wneud trefniadau newydd ar gyfer llysoedd domestig ac, yn ail, i gael yr opsiwn o ganiatáu i lysoedd gyfeirio materion i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ond dim ond i ofyn am gymorth gyda dehongli cyfraith yr UE.

Mae Cymal 20(1) yn nodi bod yr adran hon yn gymwys i achosion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a. y Protocol;
- b. darpariaeth gysylltiedig o'r Cytundeb Ymadael; neu
- c. gyfraith ddomestig sy'n ymwneud (i) â'r Protocol, neu (ii) â darpariaeth gysylltiedig o'r Cytundeb Ymadael.

Mae Cymal 20(2) yn dweud, yn yr achos hwn, fod llys neu dribiwnlys:

- a. heb ei rwymo gan unrhyw un o egwyddorion neu benderfyniadau gan Lys Ewrop o'r diwrnod y daw'r Ddeddf hon i rym;
- b. yn methu cyfeirio unrhyw fater i Lys Ewrop.

Mae Cymal 20(3) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion wneud unrhyw ddarpariaeth y maent o'r farn ei bod yn briodol mewn cysylltiad ag is-adran (2).

Mae Cymal 20(4) yn darparu y câi rheoliadau o'r fath sefydlu gweithdrefn lle y caiff llys neu dribiwnlys gyfeirio cwestiwn o ran dehongli cyfraith yr UE i Lys Ewrop yn yr achosion a ganlyn:

- a. mae'r cwestiwn yn codi mewn achos gerbron y llys neu'r tribiwnlys,
- b. mae'r llys neu'r tribiwnlys o'r farn bod angen i Lys Ewrop ymdrin â'r cwestiwn hwnnw cyn y gellir dod â'r achos i ben.

9. Masnach

Cefndir

Yn y Protocol, cytunodd y DU a'r UE y byddai Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn rhai o reolau'r UE, ac y câi gweddill y DU (fel Prydain Fawr) newid ei rheolau.

Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gwiriadau sy'n ofynnol gan yr UE ar gynhyrchion sy'n dod i mewn i'w **Farchnad Sengl** gael eu cynnal wrth gyrraedd Gogledd Iwerddon o Gymru, Lloegr a'r Alban. Weithiau, cyfeirir at hyn fel 'ffin ym Môr Iwerddon'.

Mae'r trefniadau'n ar ôl yn ei gwneud yn ofynnol i borthladdoedd Cymru sefydlu safleoedd rheoli ffiniau newydd, **a ddisgrifir gan Lywodraeth Cymru** fel "un o'r rhaglenni cyflenwi seilwaith mwyaf a mwyaf cymhleth" y mae'n ymwneud ag ef. Mae'r prosiect wedi bod yn destun **sawl gohiriad** a dywedodd **Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi**, wrth y Senedd ar 28 Mehefin mai'r cynharaf y gallai safle cyntaf Cymru fod yn weithredol yw diwedd 2023.

Mae Cymalau 4-7 o'r Bil yn diffodd rhannau o'r Protocol fel y byddai ei ofynion yn cael eu dileu mewn cyfraith ddomestig. Maent hefyd yn rhoi pwerau eang i Weinidogion roi trefniadau newydd ar waith heb fewnbwn na chydsyniad yr UE.

Mae rhai trefniadau newydd wedi'u nodi yn y Bil, er ei fod yn bennaf yn rhoi pwerau i Weinidogion ddeddfu ar gyfer trefniadau'r dyfodol.

Newidiadau i reolau ar gyfer symudiad nwyddau a thollau

Mae Cymal 4 yn datgymhwyso gofynion y Protocol ar gyfer symudiad nwyddau a thollau ac yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU newid y dull hwn.

Mae Cymal 4(1) yn datgymhwyso'r darpariaethau sy'n gwarantu na fydd tollau'n cael eu codi ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon oni bai mai eu tynged yw symud ymlaen i'r UE, a'r rheolau ar gyfer sut y mae hyn yn gweithio.

Sut y mae'r Bil yn cyflawni hyn

Mae Cymal 4(1) yn datgymhwysu'r is-baragraff cyntaf a'r ail is-baragraff o Erthygl 5(1) a (2) o'r Protocol.

Mae'r is-baragraffau hyn yn darparu na fydd tollau'n cael eu codi ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon oni bai mai eu tynged yw symud ymlaen i'r UE a sefydlu rheolau ar gyfer sut y mae hyn yn gweithio.

Mae Cymal 4(2) yn dileu tollau a gofynion rheoleiddio penodol, megis rheolaethau iechydol a ffytoiechydol.

Sut y mae'r Bil yn cyflawni hyn

Mae Cymal 4(2) yn datgymhwysu Erthyglau 5(3) a 5(4) ac Atodiad 2 i'r Protocol i'r graddau eu bod yn ymwneud â symudiadau cymwys o nwyddau yn y DU neu nad ydynt yn symud i'r UE. Mae hyn hefyd yn dileu pŵer corff cyffredinol y Cytundeb Ymadael, sef y Cyd-bwyllgor, i osod amodau ar gyfer eithrio tollau cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu, fel y'i disgrifir isod.

- Mae Erthygl 5(3) yn rhoi pwerau i Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael sefydlu amodau ar gyfer pryd y bydd cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu y mae llongau â baneri'r DU sy'n gofrestredig i borthladdoedd Gogledd Iwerddon yn cael eu heithrio o dollau;
- Mae Erthygl 5(4) yn darparu y bydd cyfraith yr UE sydd wedi'i rhestru yn Atodiad 2 yn gymwys i Ogledd Iwerddon;
- Mae Atodiad 2 yn rhestru cyfraith a gweithdrefnau'r UE sy'n gymwys i Ogledd Iwerddon.

Mae Cymal 4(3) a 4(4) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion gymhwysu Cymal 4(2) i unrhyw un o'r canlynol, fel y câi Gweinidogion newid dull y DU i'r canlynol:

- a. at ba ddiben y mae nwyddau'n cael eu symud, boed yn fasnachol neu'n anfasnachol;
- b. y modd y mae'r nwyddau'n cael eu symud;
- c. y person neu'r gwasanaeth a ddefnyddir i symud y nwyddau;

- d. a yw'r symudiad yn symudiad uniongyrchol o un lle i'r llall ai peidio;
- e. y man lle y mae'r nwyddau'n cael eu symud ohono neu iddo;
- f. y man lle y bydd y nwyddau'n aros neu'n cael eu symud iddo ar ôl symudiad cymwys;
- g. natur y nwyddau;

Cyfeirir at y rhain fel disgrifiadau rhagnodedig o symudiadau cymwys o nwyddau sy'n symud i'r DU, neu rywle heblaw am yr UE, yng nghymal 4(3).

Mae Cymal 4(5) yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU newid ystyr 'nwyddau sy'n symud i'r DU, neu rywle heblaw am yr UE'. Yn benodol, gallai'r rheoliadau hyn wneud y canlynol:

- a. gosod amodau neu feini prawf i ganfod a yw nwyddau'n 'nwyddau sy'n symud i'r DU neu rywle heblaw am yr UE', gan gynnwys pan fo masnachwyr yn nodi bod nwyddau'n gyson â chynllun rhagnodedig (h.y. hunanddatgan);
- b. darparu bod nwyddau'n cael eu trin fel nwyddau sy'n symud i'r DU neu rywle heblaw am yr UE (h.y. heb feini prawf neu amodau);
- c. darparu i'r cwestiwn a yw nwyddau'n nwyddau sy'n symud i'r DU neu rywle heblaw am yr UE gael ei benderfynu drwy gyfeirio at amgylchiadau ar ôl symudiad cymwys o'r nwyddau (h.y. penderfynu ar hyn ar ôl y symudiad).

Mae Cymal 4(6) yn diffinio 'symudiad cymhwys' yn fras, er mwyn cynnwys symudiadau i/o Ogledd Iwerddon o unrhyw gyrchfan heblaw am yr UE, a symudiadau o fewn y DU, fel a ganlyn:

- **symudiad i Ogledd Iwerddon** o Brydain Fawr, Ynys Manaw, unrhyw un o Ynysoedd y Sianel ac unrhyw le arall y tu allan i'r UE. Pan fo nwyddau'n tarddu o'r môr, symudiad y nwyddau o'r môr i borthladd neu le arall yng Ngogledd Iwerddon. Diffinnir y 'môr' hefyd yn y modd ehangaf posibl mewn cyfraith ryngwladol, sy'n cwmpasu môr tiriogaethol a Pharth Economaidd Neilltuedig unrhyw wlad neu diriogaeth, a'r cefnforoedd. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu'r holl nwyddau sy'n cyrraedd Gogledd Iwerddon o unrhyw ran o unrhyw fôr;
- **symudiad o Ogledd Iwerddon** i Brydain Fawr, Ynys Manaw, unrhyw un o Ynysoedd y Sianel ac unrhyw le arall y tu allan i'r UE;
- symud o fewn y DU.

Pwerau gweinidogion ar gyfer cyfraith symudiad nwyddau newydd

Mae Cymal 5 yn grymuso Gweinidogion i ddeddfu ar gyfer rheolau symudiad nwyddau newydd.

Mae Cymal 5(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion wneud rheoliadau y maent o'r farn eu bod yn briodol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r Protocol y mae Cymal 4 yn ymwneud â hi.

Mae Cymal 5(2) yn darparu eithriad i hyn ar gyfer materion tollau, sy'n dod o dan Cymal 6.

Mae Cymal 5(3) yn darparu y caiff rheoliadau wneud y canlynol:

- a. darparu ar gyfer gwiriadau, rheolaethau a phrosesau gweinyddol (boed yn gymwys cyn neu ar ôl symudiad nwyddau), gan gynnwys pwerau chwilio, archwilio a mynediad;
- b. cyfyngu neu wahardd symudiad nwyddau sy'n symud i'r DU neu rywle heblaw am yr UE i mewn i'r UE;
- c. gwneud darpariaeth ynghylch trin nwyddau sy'n peidio â bod, neu'n dod, yn nwyddau sy'n symud i'r DU neu rywle heblaw am yr UE.

Pwerau Cyllid a Thollau EM a'r Trysorlys ar gyfer cyfraith tollau newydd

Mae Cymal 6 yn grymuso Cyllid a Thollau EM a'r Trysorlys i reoleiddio tollau.

Mae Cymal 6(1) yn rhoi pwerau i Cyllid a Thollau EM neu'r Trysorlys wneud unrhyw ddarpariaeth am faterion tollau y maent o'r farn eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Protocol.

Mae Cymal 6(2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud y canlynol:

- a. gosod neu amrywio amllder tollau tramor;
- b. darparu ar gyfer gwiriadau, rheolaethau a phrosesau gweinyddol (boed yn gymwys cyn neu ar ôl symudiad nwyddau), gan gynnwys pwerau chwilio, archwilio a mynediad;
- c. cyfyngu neu wahardd symudiad nwyddau sy'n symud i'r DU neu rywle heblaw am yr UE i mewn i'r UE;

- d. gwneud darpariaeth ynghylch trin nwyddau sy'n peidio â bod, neu'n dod, yn nwyddau sy'n symud i'r DU neu rywle heblaw am yr UE.

Rheolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau

Mae Cymalau 7-10 yn sefydlu rheolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau. Maent yn gwneud y canlynol:

- darparu'r opsiwn i ddewis rhwng cydymffurfio â chyfundrefnau'r DU neu'r UE;
- datgymhwysu'r Protocol pan fo'n gwrthdaro â'r gyfundrefn ddeuol newydd hon;
- rhoi pwerau newydd i Weinidogion ddeddfu;
- diffinio 'rheoleiddio nwyddau' yn fras ac yn rhoi pwerau i Weinidogion newid y diffiniad hwn.

Ceir rhagor o fanylion isod.

Llwybr rheoleiddio deul

Mae Cymal 7 yn sefydlu cyfundrefn reoleiddio ddeuol yng Ngogledd Iwerddon a'r opsiwn i ddewis rhwng cydymffurfedd â gofynion y DU neu'r UE, neu'r ddwy set o ofynion.

Mae Cymal 7(1) yn darparu'r opsiwn i ddewis cydymffurfedd naill ai â llwybr rheoleiddio'r DU neu lwybr rheoleiddio'r UE, neu'r ddau. Mae hyn yn gymwys i ddosbarthiadau rheoleiddiedig o nwyddau, gan gynnwys nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu, meddyginiaethau a bwyd-amaeth.

Mae Cymal 7(2) yn darparu bod yn rhaid i'r unigolyn neu'r cwmni ddewis pa lwybr rheoleiddio y mae am gydymffurfio ag ef.

Mae Cymal 7(3) yn diffinio 'nwydd rheoleiddiedig' fel unrhyw ddosbarth o nwyddau a reoleiddir gan Atodiad 2 i'r Protocol. Mae Atodiad 2 yn rhestru cyfraith a gweithdrefnau'r UE sy'n gymwys i Ogledd Iwerddon.

Mae Cymal 7(4) yn diffinio llwybr rheoleiddio'r DU fel yr hyn a geir yng nghyfraith ddomestig y DU a llwybr rheoleiddio'r UE fel yr hyn a geir yng nghyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu.

Rheoleiddio nwyddau: datgymhwyso'r Protocol

Mae Cymal 8 yn datgymhwyso'r darpariaethau sy'n golygu bod cyfraith yr UE yn gymwys i Ogledd Iwerddon pan maent yn atal Cymal 7 rhag cael effaith.

Mae Cymal 8 yn darparu bod Erthygl 5(4) ac Atodiad 2 i'r Protocol yn cael eu datgymhwysu i'r graddau y maent yn atal Cymal 7 rhag cael effaith.

Mae Erthygl 5(4) yn nodi y bydd cyfraith yr UE sydd wedi'i rhestru yn Atodiad 2 yn gymwys i Ogledd Iwerddon.

Mae Atodiad 2 yn rhestru cyfraith a gweithdrefnau'r UE sy'n gymwys i Ogledd Iwerddon.

Rheoleiddio nwyddau: pwerau i wneud cyfraith newydd

Mae Cymal 9 yn grymuso Gweinidogion i ddeddfu ar gyfer rheoleiddio nwyddau mewn cysylltiad â'r Protocol os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol.

Mae Cymal 9(1) yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud unrhyw reoliad am reoleiddio nwyddau y maent o'r farn ei fod yn briodol mewn cysylltiad â'r Protocol.

Mae Cymal 9(2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud y canlynol:

- a. gwneud unrhyw ddarpariaeth y mae Gweinidogion o'r farn ei bod yn briodol mewn cysylltiad â llwybr rheoleiddio'r DU sydd ar gael;
- b. diwygio Cymalau 7 neu 8.

Ystyr rheoleiddio nwyddau a phwerau i'w newid

Mae Cymal 10 yn diffinio 'rheoleiddio nwyddau' yna'n rhoi'r pŵer i Weinidogion newid hyn.

Mae Cymal 10(1) yn diffinio 'rheoleiddio nwyddau' fel rhywbeth sy'n cynnwys

- a. sicrhau bod nwyddau ar gael ar y farchnad;
- b. rhoi nwyddau mewn gwasanaeth;

- c. cynhyrchu nwyddau (boed drwy weithgynhyrchu neu unrhyw broses arall);
- d. ddefnyddio a mewnforio nwyddau.

Ehangir y cyfeiriadau hyn ymhellach drwy gynnwys y canlynol:

... any matter that is relevant to regulation of goods, which may include matters that occur before or after goods are made available on the market, put into service or produced.

Rhestrir 12 mater fel awgrymiadau yng Nghymal 10(2), gan gynnwys rhoi ar y farchnad, cyflenwi, marchnata a gwerthu, hysbysebu, rhoi gwybodaeth a phecynnu. Gellir cynnwys mwy, fel y penderfynir gan Weinidogion.

Mae Cymal 10(3) yn darparu y gellir cynnwys cynhyrchu nwyddau hefyd, drwy weithgynhyrchu neu unrhyw broses arall, mewn achosion o sicrhau bod nwyddau ar gael ar y farchnad neu roi nwyddau mewn gwasanaeth.

Mae Cymal 10(4) yn rhoi rhagor o bwerau i Weinidogion newid y cyfeiriadau at reoleiddio nwyddau, gan gynnwys newid eu heffeithiau.

Mwy o bwerau Gweinidogol i sefydlu cyfundrefn reoleiddio ddeuol

Mae Cymal 11 yn rhoi pwerau ychwanegol i Weinidogion mewn perthynas â Chymal 7 ar y gyfundrefn reoleiddio ddeuol, megis darparu eithriadau.

Mae Cymal 11(1) yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud y canlynol:

- a. cymhwyso Cymal 7 i ddosbarthiadau rheoleiddiedig o nwyddau neu lwybrau rheoleiddio a ragnodir;
- b. darparu eithriadau i Gymal 7;
- c. addasu effaith Cymal 7(2) o ran dosbarth rheoleiddiedig o nwyddau (yn ymwneud â dewis person i ddilyn naill ai llwybr rheoleiddio'r DU neu'r UE, neu'r ddau). Mae Cymal 11(2) yn nodi bod hyn yn gymwys i'r cyfan neu rywffaint o'r llwybr neu'r dosbarth o nwyddau.

Mae Cymal 11(3) yn nodi mai ystyr 'llwybr rheoleiddio' yw llwybr rheoleiddio'r DU neu'r UE o fewn ystyr adran 7.

10. Rheoli cymorthdaliadau

Mae'r Bil yn datgymhwyso darpariaethau'r Protocol mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol/rheoli cymorthdaliadau, rôl Llys Cyfiawnder yr UE a rheolau gweithredu a chymhwyso eraill.

Cefndir

Mae'r Protocol yn darparu bod rhywfaint o gyfraith yr UE yn gymwys i Ogledd Iwerddon ar ôl Brexit. Un maes o'r fath o gyfraith yr UE yw cymorth gwladwriaethol, neu reoli cymorthdaliadau.

Yn rhyngwladol, mae gwladwriaethau gwahanol yn defnyddio termau gwahanol ar gyfer cymorth gwladwriaethol/rheoli cymorthdaliadau, gan ddibynnu ar eu syniadaeth a'u dull gweithredu. 'Cymorth gwladwriaethol' yw'r term a ddefnyddir gan yr UE. 'Rheoli cymorthdaliadau' yw'r term a ddefnyddir gan y DU.

Mae Cymal 12 yn datgymhwyso darpariaethau cymorth gwladwriaethol y Protocol ac yn rhoi pwerau i Weinidogion roi trefniadau newydd ar waith.

Mae Erthygl 10 yn darparu y bydd cyfraith yr UE a restrir yn Atodiad 5 yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Mae hefyd yn esbonio rôl y DU a'r UE wrth gefnogi cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol a masnach ynddynt yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Atodiad 5 yn nodi cyfraith a rheolau cymwys yr UE ar gymorth gwladwriaethol sy'n parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Atodiad 6 yn nodi pwerau a gweithdrefnau Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael wrth bennu lefelau'r cymorth a ganiateir.

Mae Cymal 12(1) yn datgymhwyso Erthygl 10 ar gymorth gwladwriaethol, ac Atodiadau 5 a 6 o'r Protocol.

Mae Cymal 12(2) yn diwygio *Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022* i ystyried hyn.

Mae Cymal 12(3) yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud unrhyw ddarpariaeth y maent o'r farn ei bod yn briodol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r Protocol sy'n ymwneud â'r adran hon.

11. TAW a thollau cartref

Cefndir

Mae'r Protocol yn gosod trefniadau ar gyfer TAW a thollau yng Ngogledd Iwerddon yn Erthygl 8.

Mae'n darparu y bydd cyfraith yr UE a restrir yn Atodiad 3 yn gymwys i Ogledd Iwerddon, ond y bydd awdurdodau'r DU yn ei chymhwyso ac yn ei gweithredu.

Ni fydd cyllid sy'n deillio o'r camau hyn yn rhan o gylch gwaith yr UE a chaiff y DU gymhwyso eithriadau TAW a chyfraddau llai sy'n bodoli yn Iwerddon i Ogledd Iwerddon.

Mae Erthygl 8 yn rhoi pwerau i Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael drafod ei weithrediad yn rheolaidd, i adolygu ei gais ac i fabwysiadu mesurau.

Mae Cymal 17 yn rhoi pwerau eang i'r Trysorlys reoleiddio TAW, tollau ac unrhyw dreth arall mewn cysylltiad â'r Protocol, gan gynnwys lleihau neu ddileu gwahaniaethau rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.

Mae Cymal 17(1) yn rhoi pwerau i'r Trysorlys wneud rheoliadau y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Protocol ynghylch:

- a. TAW (gan gynnwys gosod neu amrywio amllder y dreth);
- b. unrhyw doll gartref (gan gynnwys gosod neu amrywio amllder unrhyw doll gartref); neu
- c. unrhyw dreth arall (gan gynnwys gosod neu amrywio amllder unrhyw dreth) y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Protocol.

Mae Cymal 17(2) yn rhoi pwerau i'r Trysorlys wneud rheoliadau pan fo o'r farn ei bod yn briodol lleihau, dileu neu osgoi gwahaniaeth yn y tair treth hyn rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.

Gweler Cymal 24 hefyd, a nodir yn adran 9 isod, sy'n gosod gofynion ar gyfer rheoliadau treth a thollau a wneir o dan y Ddeddf hon gan y Trysorlys a Cyllid a Thollau EM.

12. Rheolau gweithdrefnol ar gyfer gwneud rheoliadau

Mae Cymal 23 yn gosod rheolau gweithdrefnol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon.

Mae Cymal 23(2) yn nodi nad yw'r adran hon yn gymwys i'r canlynol:

- a. rheoliadau treth neu dollau;
- b. rheoliadau sy'n dod yn gyfan gwbl o dan adran 26 (ar rychwant, cychwyn ac enw byr).

Mae Cymal 23(3) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau gael eu gwneud gan offeryn statudol (OS).

Mae Cymal 23(4) yn nodi y gall OS o'r fath gael eu diddymu drwy benderfyniad a gaiff ei basio yn y naill Dŷ Senedd y DU neu'r llall oni bai bod y rheoliadau'n gwneud y canlynol:

- a. diwygio Deddf Seneddol; neu
- b. ddarpariaeth ôl-weithredol.

Pan fo hyn yn wir, mae Cymal 23(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r OS fod yn ddarostyngedig i naill ai'r:

- a. weithdrefn gadarnhaol ddrafft; neu'r
- b. weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', os yw'r Gweinidog yn credu bod angen peidio â defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft am resymau brys.

Ar gyfer OS sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, mae Cymal 23(6) yn gwahardd OS rhag cael eiu gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan ddau Dŷ Senedd y DU.

Ar gyfer OS sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', mae Cymal 23(7):

- a. yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU ar ôl cael eu gwneud;
- b. yn darparu eu bod yn peidio â chael effaith ar ôl 28 diwrnod i'r dyddiad y cânt eu gwneud, oni bai bod y ddau Dŷ yn eu cymeradwyo drwy benderfyniad;

Mae Cymal 23(8) yn nodi, wrth gyfrifo'r cyfnod 28 diwrnod, na ddylid ystyried amser (a) pan fo Senedd y DU wedi'i diddymu neu wedi'i haddoedi, neu (b) pan fo'r naill Dŷ neu'r llall wedi'i ohirio am fwy na phedwar diwrnod.

Mae Cymal 23(9) yn darparu, os yw rheoliadau'n peidio â chael effaith o ganlyniad i is-adran (7)(b), nad yw hyn yn (a) effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wnaed yn flaenorol o dan y rheoliadau, nac yn (b) atal gwneud rheoliadau newydd.

Mae Cymal 24 yn gosod rheolau ar gyfer rheoliadau treth a thollau a wneir o dan y Ddeddf hon.

Mae Cymal 24(1)-(9) yn gwneud yr un ddarpariaeth â Chymal 23 ar gyfer materion treth a thollau, sy'n arferadwy gan y Trysorlys (mewn perthynas â threth) neu'r Trysorlys a Cyllid a Thollau EM (mewn perthynas â thollau).

Mae Cymal 24(10) yn datgymhwyso'r gofynion gweithdrefnol a nodir yn is-adrannau (4) i (9) mewn amgylchiadau pan fo rheoliadau treth neu dollau'n cynnwys darpariaethau a wneir o dan Ddeddf arall.

Mae Cymal 24(11) yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn yr adran hon.

13. Cymalau ymarferol ar gychwyn, rhychwant, ac ati

Dehongli

Mae Cymal 25 yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf hon.

Rhychwant, cychwyn ac enw byr

Mae Cymal 26 yn penderfynu graddau tiriogaethol y Ddeddf hon, pryd y daw i rym a'i henw. Mae hyn yn darparu bod ei hadran ar ddarpariaethau terfynol (a gynhwysir yng Nghymalau 21-25) yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio, a bod ei darpariaethau sy'n weddill yn dod i rym ar ddiwrnodau a benodir gan Weinidogion y DU mewn rheoliadau.

Mae Cymal 26(1) yn darparu bod y Ddeddf yn ymestyn i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Cymal 26(2) yn darparu bod adrannau 21-25 yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y

Ddeddf ei phasio.

Mae Cymal 26(3) yn darparu bod ei darpariaethau eraill yn dod i rym ar y diwrnod neu'r diwrnodau a benodir gan Weinidogion y DU mewn rheoliadau.

Mewn cysylltiad â dod i rym unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon, mae Cymal 26(4) yn darparu y caiff Gweinidogion y DU wneud

- a. darpariaethau cysylltiedig, atodol neu ganlyniadol;
- b. darpariaeth drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

Mae Cymal 26(5) yn nodi bod yn rhaid i reoliadau o dan yr adran hon gael eu gwneud gan OS ac y caiff wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer meysydd gwahanol.

Mae Cymal 26(6) yn nodi y gellir enwi'r Ddeddf hon fel Deddf Protocol Gogledd Iwerddon 2022.

Atodiad: cipolwg ar y darpariaethau

Mae Cymal 1 yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Bil.

Mae Cymal 2 yn datgymhwyso rhannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig drwy newid sut y mae *Deddf yr UE (Ymadael) 2018* yn gweithio. Mae Deddf 2018 yn rhoi effaith i'r ddau mewn cyfraith ddomestig.

Mae Cymal 3 yn cyfyngu ar effaith cyfraith cytundeb gwahanu fel bod yn rhaid ei ddarllen yn unol â'r Bil ac nid y Cytundeb Ymadael, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd.

Mae Cymal 4 yn datgymhwyso gofynion y Protocol ar gyfer symudiad nwyddau a thollau ac yn rhoi pwerau i Weinidogion newid y dull hwn.

Mae Cymal 5 yn grymuso Gweinidogion i ddeddfu ar gyfer rheolau symudiad nwyddau newydd.

Mae Cymal 6 yn grymuso Cyllid a Thollau EM a'r Trysorlys i reoleiddio tollau.

Mae Cymal 7 yn sefydlu cyfundrefn reoleiddio ddeuol yng Ngogledd Iwerddon a'r opsiwn i ddewis rhwng cydymffurfedd â gofynion y DU neu'r UE, neu'r ddwy set o ofynion.

Mae Cymal 8 yn datgymhwyso'r darpariaethau sy'n golygu bod cyfraith yr UE yn gymwys i Ogledd Iwerddon pan maent yn atal Cymal 7 rhag cael effaith.

Mae Cymal 9 yn grymuso Gweinidogion i ddeddfu ar gyfer rheoleiddio nwyddau mewn cysylltiad â'r Protocol os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol.

Mae Cymal 10 yn diffinio 'rheoleiddio nwyddau' yna'n rhoi'r pŵer i Weinidogion newid hyn.

Mae Cymal 11 yn rhoi pwerau ychwanegol i Weinidogion mewn perthynas â Chymal 7 ar y gyfundrefn reoleiddio ddeuol, megis darparu eithriadau.

Mae Cymal 12 yn datgymhwyso darpariaethau cymorth gwladol y Protocol ac yn rhoi pwerau i Weinidogion roi trefniadau newydd ar waith.

Mae Cymal 13 yn dileu awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd,

pwerau cynrychiolwyr yr UE a rhai o bwerau strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Ymadael. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion ddeddfu ar gyfer trefniadau newydd, gan gynnwys y rhai y cytunwyd arnynt â'r UE ar gyfer goruchwyllo a rhannu gwybodaeth.

Mae Cymal 14 yn datgymhwyso rhannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â rhannau sydd wedi'u datgymhwyso eisoes. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion ddeddfu ar gyfer trefniadau newydd.

Mae Cymal 15 yn nodi y caiff Gweinidogion newid pa rannau o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael sy'n cael eu diffodd/gweithredu, ac i ba raddau, os bodlonir un o ddau amod. Mae eithriadau pwysig yn gymwys fel na chaniateir gwneud newidiadau i erthyglau'r Protocol a ddyluniwyd i ddiogelu rhannau o Gytundeb Gwener y Groglith (Belfast) 1998 ar hawliau dinasyddion, cydweithrediad rhwng y Gogledd a'r De, a'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon. Fodd bynnag, gallai'r amddiffyniadau hyn gael eu diystyru yn y dyfodol gan Weinidogion.

Mae Cymal 16 yn grymuso Gweinidogion i wneud cyfreithiau newydd pan fo hynny'n briodol mewn cysylltiad â newid cymhwysiad y Protocol a'r Cytundeb Ymadael, yn unol â Chymal 15.

Mae Cymal 17 yn rhoi pwerau eang i'r Trysorlys reoleiddio TAW, tollau ac unrhyw dreth arall mewn cysylltiad â'r Protocol, gan gynnwys lleihau neu ddileu gwahaniaethau rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.

Mae Cymal 18 yn awdurdodi Gweinidogion i gymryd rhan mewn ymddygiad sy'n ymwneud â'r Protocol pan fo hynny'n briodol, hyd yn oed os nad yw wedi'i awdurdodi gan y Ddeddf hon. Rhestrir llunio canllawiau fel enghraifft yn nodiadau'r Bil ond nid yw ymddygiad wedi'i ddiffinio (na'i gyfyngu) gan y Ddeddf.

Mae Cymal 19 yn rhoi pwerau i Weinidogion weithredu unrhyw gytundeb rhwng y DU a'r UE sy'n addasu, yn atodi neu'n disodli'r Protocol, ac i ddeddfu ar faterion cysylltiedig.

Mae Cymal 20 yn gwneud mwy o newidiadau i rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd fel bod llysoedd domestig yn cael eu hatal rhag dilyn egwyddorion neu benderfyniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, a rhag cyfeirio achosion i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Mae Cymal 20 hefyd yn rhoi dau bŵer newydd i Weinidogion – yn gyntaf, i wneud trefniadau

newydd ar gyfer llysoedd domestig ac, yn ail, i gael yr opsiwn o ganiatáu i lysoedd gyfeirio materion i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ond dim ond i ofyn am gymorth gyda dehongli cyfraith yr UE.

Mae Cymal 21 yn awdurdodi Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru i wario arian at ddiben unrhyw beth, neu mewn cysylltiad ag ef, sydd ei angen wrth lunio rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon.

Mae Cymal 22 yn un o'r cymalau mwyaf arwyddocaol yn y Bil. Mae'n pennu paramedrau ar gyfer rheoliadau, gan gynnwys y câi Gweinidogion y DU roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud pwerau i gyflawni'r Ddeddf, ac y câi Gweinidogion y DU benderfynu pa weithdrefn graffu a ddefnyddir yn y Senedd. Mae Cymal 22 hefyd yn awdurdodi rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon i atal dros dro, diddymu neu newid cyfraith ddomestig, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a wneir gan y Senedd sy'n rhoi effaith i'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael.

Mae Cymal 23 yn gosod rheolau gweithdrefnol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon.

Mae Cymal 24 yn gosod rheolau ar gyfer rheoliadau treth a thollau a wneir o dan y Ddeddf hon.

Mae Cymal 25 yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf hon.

Mae Cymal 26 yn penderfynu graddau tiriogaethol y Ddeddf hon, pryd y daw i rym a'i henw. Mae hyn yn darparu bod ei hadran ar ddarpariaethau terfynol (cymalau 21-25) yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio, a bod ei darpariaethau sy'n weddill yn dod i rym ar ddyddiau a benodir gan Weinidogion y DU mewn rheoliadau.